# Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi Harbour Consultative Committee

***02 Mawrth / March 2010***

***Adroddiad yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig***

## *1 – __Ffioedd a Thaliadau__*

***1.1*** Mae'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf 2010/11 wedi eu hanfon er cymeradwyaeth i'r Swyddogion Statudol a'r Arweinydd Portfolio. Disgwylir y bydd yr Arweinydd Portfolio wedi cadarnhau'r ffioedd erbyn diwedd Chwefror/dechrau Mawrth. Er mwyn sicrhau fod ein cleientau yn gwybod am y taliadau a godir mae'r Uned Forwrol wedi anfon copi o'r ffioedd a'r taliadau drafft i'r holl gleientiaid.

***1.2*** Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â harbwr Aberdyfi ac Abermaw yn atodol. Bydd yr Aelodau yn sylwi mai'r argymhelliad yw peidio codi'r tâl ar drigolion sy'n byw yng Ngwynedd yn barhaol yn 2010, tra fod y ffioedd a'r taliadau i'r rhai sy'n byw y tu allan i Wynedd yn cynyddu o 1%. Yn anffodus, bydd ail-gyflwyno TAW o 17.5% yn golygu cynnydd bach mewn costau i'r holl ddefnyddwyr.

***1.3*** Rhagwelir fod y cynnydd mewn chwyddiant i bob harbwr yng Ngwynedd am 2010/11 yn negyddol ar -1.05% sydd wedi ei seilio ar bod y Cynnydd Cyflog nesaf yn 1%. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad bach yn nharged incwm cyffredinol yr Harbwr o £2,600 yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol nad yw'r targed incwm yn Aberdyfi wedi cyrraedd y targed gofynnol ers nifer o flynyddoedd ac mewn amgylchiadau o'r fath disgwylir y bydd angen cymryd camau pellach i sicrhau fod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cyrraedd eu targedau heb beryglu safonau.

***1.4*** Nid yw'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Cherbydau Dŵr Personol wedi cynyddu yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau i lansio a chofrestru Cychod Pwer yn atodol ac mae'r ffioedd yma'n aros yr un fath.

***1.5*** Y cynnydd cyffredinol yn y targed incwm i'r Uned Forwrol am 2009/10 yw £9,070 sy'n cymharu gyda tharged uwch o £51,020 yn 2009/10. Mae hyn yn cynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol i £2,130,970 yn 2010/11.

## *2. - __Cyllidebau__*

***2.1*** Mae'r sefyllfa ariannol yn harbwr Aberdyfi ac Abermaw yn nhrydydd chwarter y flwyddyn ariannol hyd at 31ain Rhagfyr 2009 yn atodol. Bydd yr aelodau yn nodi fod y targed incwm sy'n ymwneud â'r harbwr yn Aberdyfi am 2009/10 yn £39,660 ac mai'r cyfanswm incwm a grewyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2009 yw £31,694. Mae hyn o'i gymharu gyda chasglu £32, 821 mewn incwm am yr un cyfnod y llynedd.

**2.2** Ar yr 31ain Rhagfyr 2009 mae'r diffyg presennol mewn incwm i harbwr Aberdyfi yn £7,966. Roedd y diffyg am yr un cyfnod y llynedd yn £7.719 ac felly mae'n ymddangos bod cysondeb yn y diffyg incwm. Nid ydym yn rhagweld y gellir creu swm sylweddol o incwm yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol bresennol ac felly disgwylir na fydd y targed incwm i harbwr Aberdyfi yn cael ei gyrraedd.

**2.3** Fel a nodir o'r manylion ariannol mae'r gwariant hyd yma hefyd wedi rhagori ar y gyllideb o dan nifer o benawdau. Rhagwelir y bydd gwariant ychwanegol yn ystod mis Mawrth ac mae'r dangosyddion ariannol allweddol i'r chwarter olaf yn rhagweld gorwariant o £3,300 yng nghyllideb harbwr Aberdyfi erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd cyfanswm y gwariant cyffredinol wedi ystyried y targed incwm a ble fo'n bosibl bydd angen gwneud arbedion ychwanegol. Mae hi'n annerbyniol i wariant fod yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd gan fod yn rhaid adnabod unrhyw orwariant o gyllideb gyffredinol yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig.

**2.4** O ystyried yr hinsawdd economaidd presennol a'r gofyn i adnabod rhagor o arbedion fe fydd 2010/11 yn flwyddyn heriol i'r Uned Forwrol ac yn arbennig i Harbwr Aberdyfi a Harbwr Abermaw. Pwysleisir y bydd angen goresgyn y gorwariant ynghyd â'r diffyg mewn incwm yn enwedig o gofio am y gostyngiad cyffredinol sylweddol yn y gyllideb sydd ar gael i Gyngor Gwynedd a'r arbedion y bydd angen eu nodi yn y dyfodol.

## *3* ***Mordwyo***

*3.1* Mae'r holl gymhorthion mordwyo sy'n arwain i Harbwr Aberdyfi wedi aros yn eu lle yn ystod rhan gyntaf misoedd y gaeaf. Hyd yma, mae'r gost o roi gwasanaeth i'r cymhorthion mordwyo ac angorfeydd yr Harbwr yn £4,429 gyda'r gyllideb sydd ar gael yn ddim. Rhagwelir y bydd y gwariant cyffredinol i angorfeydd a gwasanaeth morwydo am 2009/10 yn £7,430.

**3.2** Mae'n hanfodol fod y gwaith cynnal a chadw ar y cymhorthion mordwyo wedi ei gwblhau cyn y Pasg ac os fydd y tywydd yn caniatáu dylai'r holl Gymhorthion Mordwyo fod yn eu lle erbyn hynny. Bydd y Bwi Sianel Fordwyo yn dod i'r lan yn 2010 ac mae'r un sydd wedi ei adnewyddu wedi ei gynnal a'i gadw ac yn barod i'w osod.

**3.3** Fel yn y blynyddoedd a fu, bydd angen adnabod arian o'r gyllideb refeniw bresennol i gwrdd â'r gost o gynnal a chadw Cymhorthion Mordwyo sy'n ddyletswydd statudol. Archwilir yr holl gymhorthion mordwyo yn flynyddol gan Dŷ'r Drindod ac fel yn y gorffennol maent wedi bod yn feirniadol o'r gwaith a diffyg safon ein Cymhorthion Mordwyo.

Hyd yma nid oes unrhyw Hysbysiadau i Forwyr mewn grym yn harbwr Aberdyfi.

## *4 -* ***Staff***

**4.1** Mae nifer o swyddogion o'r Uned Forwrol yn parhau i fod ar secondiad mewn meysydd eraill o'r gwasanaeth. Yn ddiweddar, cyflwynodd Harbwr Feistr Porthmadog (ar hyn o bryd ar secondiad yn Harbwr Pwllheli) ei lythyr ymddiswyddo a bydd yn ymddeol o'i swydd ar y 31ain Mawrth 2010. Bydd ei ymddeoliad yn golled i'r gwasanaeth a byddwn yn colli ei brofiad a'i wybodaeth helaeth.

*4.2* Hysbysebwyd swydd wag Harbwr Feistr Porthmadog yn **fewnol** yng Nghyngor Gwynedd ac mae rhestr fer o'r ymgeiwyr wedi ei llunio. Rhagwelir y bydd penodiad yn cael ei wneud yn y dyfodol agos a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau ei dd/dyletswyddau ar y 1af Ebrill 2010.

***4.3*** Hysbysebwyd swydd Cymhorthydd Harbwr yn Aberdyfi am y tymor nesaf a bydd y swydd yn dechrau ar y 1af Ebrill gan ymestyn i'r 30ain Medi 2010. Hefyd, mae swydd Cymhorthydd Harbwr Abermaw wedi ei hysbysebu a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn cael ei g/chyflogi o'r 1af Ebrill i'r 30ain Medi.

***4.4*** Yn ystod prif gyfnod gwyliau'r haf penodir un swyddog traeth i Aberdyfi a'r gobaith yw y bydd yn dechrau ar ei dd/dyletswyddau yng nghanol Mehefin. Penodir un Swyddog Traeth yn Nhywyn a bydd ef/hi hefyd yn dechrau ar y swydd yng nghanol mis Mehefin. O gofio fod gwaith adeiladu sylweddol yn digwydd yn Nhywyn, nid ydym yn rhagweld y bydd angen dau swyddog yn 2010. Mae hyn i'w gadarnhau.

Mae penodi un Cymhorthydd Harbwr tymhorol ychwanegol yn Aberdyfi gyda'i brif ddyletswyddau yn monitro a rheoli mordwyo cychod pwer yn yr harbwr yn ystod y cyfnod prysur, i'w gadarnhau. O ystyried y sefyllfa ariannol bresennol mae angen nodi arian o'r gyllideb sydd ar gael.

## 5 – ***<u>Gwobr Traeth</u>***

***5.1*** Ni fydd yr Uned Forwrol mewn sefyllfa i gyflwyno cais am wobr traeth y Faner Las o ran traeth Aberdyfi yn 2010. Ni wnaeth ansawdd y dŵr ymdrochi gyfarfod y Safon Canllaw yn 2009 ac felly ni ellir cyflwyno cais am y Faner Las. Fe wnaeth ansawddd y dŵr ymdrochi gwrdd â'r safon gorfodol yn 2009 ac felly mae'r Uned wedi cyflwyno cais am Wobr Traeth Tref Glan Môr i Aberdyfi.

5.2 Cyrhaeddodd ansawdd y dŵr yn Nhywyn y safon Canllaw gofynnol yn 2009. Er hynny, oherwydd y gwaith adeiladu yn Nhywyn ni fydd yr Uned Forwrol yn cyflwyno cais am y Faner Las na'r Wobr Traeth yn 2010. Hyderir y bydd ansawdd y dŵr ymdrochi yn cyrraedd y safon gofynnol yn ystod yr haf ac y bydd y traeth yn ail-ennill y wobr yn 2011. Hyderir na fydd y gwaith adeiladu yn effeithio'n andwyol ar ansawdd y Dŵr Ymdrochi. Cymerwyd ugain sampl i gyd rhwng mis Mai a diwedd Medi.

***5.3*** Yn atodol mae rhestr fanwl o ganlyniadau'r prawf dŵr ymdrochi yn Aberdyfi. Bydd yr aelodau hefyd yn gallu cymharu Ansawdd Dŵr Ymdrochi yn Aberdyfi gyda Abermaw a Thywyn sydd hefyd yn atodol.

## 6 - ***<u>Materion Cyffredinol</u>***

6.1 Yn ddiweddar, cafodd yr Uned Forwrol gynnig i ddatblygu prosiect a fyddai'n gwella ac yn datblygu mynediad a diogelwch i'r teithwyr/morwyr sy'n byrddio ac yn glanio yn Aberdyfi. Mae'r cynnig yn golygu gosod pontŵn fyddai'n ymestyn o'r man mwyaf dwyreiniol ar wal y cei am bellter o tua phedwar ugain metr. Byddai ochr gorllewinol y pontŵn arfaethedig yn cyd redeg gyda phwynt mwyaf dwyreiniol y jeti.

6.2 Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r cynnig i osod pontŵn ar wal y cei a bydd angen darluniau manwl cyn y gellid edrych am unrhyw arian. Mae nifer o ffactorau fydd angen eu hystyried ac mae'r rhain yn cynnwys:-

- Cyflwr presennol wal y cei
- Trwydded FEPA
- Cais Cynllunio
- Ymgynghori gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru
- Caniatâd Draenio Tir Posibl

6.3 Yn ystod dechrau Mawrth 2010 fe fydd peirianwyr ymgynghorol fydd yn gweithio ar ran Uned Amddiffyn yr Arfordir, Cyngor Gwynedd yn cynnal arolwg manwl o wal y cei. Bydd asesiad manwl a llawn ar gyflwr y stanciau sitiau yn cael ei gynnal. Bydd yr adroddiad ar gyflwr y stanciau sitiau yn hanfodol os yw'r Awdurdod i roi ystyriaeth bellach i'r cynnig am bontŵn.

6.4 Os yw'r bwriad yn mynd rhagddo dim ond cyfleuster tymhorol fydd hyn gan fod wal y cei yn cael gwyntoedd geirwon ac mae ardrawiad y tonnau yn effeithio arni. Mae symudiad y llanw ar hyd wal y cei yn sylweddol yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan fo dŵr croyw sy'n dod o'r tir yn uchel ac felly mae symudiad y llanw'n cynyddu. Bydd ffactorau o'r fath yn effeithio ar unrhyw beth sy'n arnofio sydd wedi ei osod ger wal y cei.

6.5 Bydd angen datgymalu'r pontŵn a dod ag ef i'r lan yn ystod dechrau'r hydref a'i ail-osod yn niwedd mis Ebrill. Bydd angen arian refeniw ac adnoddau ychwanegol ar gyfer trefn o'r fath.

6.6 Rydym yn croesawu'r cynnig a bydd yr Uned Forwrol yn ymgynghori ymhellach gyda Uned Amddiffyn yr Arfordir am addasrwydd lleoli pontŵn tymhorol ar hyd ochr wal y cei. Byddwn hefyd yn gweithio ar y prosiect gyda'r gymuned leol ac yn edrych am ffynonellau grant posibl. Rydym yn gwerthfawrogi'r ymrwymiad a'r brwdfrydedd a ddangoswyd i'r prosiect.

## 7 - ***<u>Consesiwn Traeth</u>***

***7.1*** Mae'r Uned Forwrol wedi derbyn cais gan 'Dyfi Donkeys' yn gofyn iddynt gael parhau i gludo plant ar fulod yn 2010. Cymeradwywyd y cais ond rydym yn aros am gadarnhad fod ganddynt yswiriant cymwys. Rydym yn gobeithio y bydd tywydd yr haf yn fwy ffafriol yn 2010 o'i gymharu gyda'r glaw trwm a'r tywydd annifyr a gafwyd yn 2009. Bydd angen gwirio pob ymgeisydd sy'n gwneud cais am gonsesiwn traeth yng Ngwynedd yn enwedig ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys pobl ifanc Mae hyn yn unol â'r drefn arferol a ddefnyddir gan gyflogwyr.

## 8 - ***<u>Pecyn Cychod Ymwelwyr</u>***

8.1 Yn y cyfarfod blaenorol rhoddwyd cynnig o flaen yr Aelodau sef cyflwyno 'Pecyn Croeso' i gychod sy'n ymweld â'r harbwr i gynnwys gwybodaeth am gyfleusterau'r harbwr, mwynderau lleol, llanw, bwytai, gwasanaethau brys ac ati.

8.2 Disgwylir y bydd yr holl gychod sy'n ymweld ag Aberdyfi o'r 1af Ebrill 2010 ymlaen yn derbyn 'Pecyn Croeso'. Mae'r cynllun yma i'w gyflwyno ymhob harbwr ac mae pob Harbwr Feistr wedi cael cyfarwyddyd i sicrhau fod Pecyn Croeso cynhwysfawr o safon ar gael. Bydd yr Harbwr Feistr yn cyflwyno Pecyn Croeso Aberdyfi i'r aelodau yn y cyfarfod.

8.3 Bydd yr Harbwr Feistr yn darparu dadansoddiad manwl i'r aelodau ar y nifer, LOA a dosbarth y cychod ymweld sydd wedi dod i harbwr Aberdyfi yn 2009 a'r incwm a grewyd mewn taliadau harbwr o ganlyniad.

## 9 - ***<u>Cyfleusterau Pysgotwyr Masnachol</u>***

***9.1*** Yn 2008, cysylltodd Cymdeithas Pysgota Bae Ceredigion â'r Uned Forwrol yn gofyn am gymorth i ddod o hyd i le storio addas a fyddai efallai yn cynnig lle i beiriant 'Viver' a chyfleusterau gwneud rhew. Mae angen gofynion pellach ar gyfer lle storio ar y lan. Byddai cyfleusterau o'r fath o fudd mawr i bysgotwyr masnachol sy'n dod a'u pysgod i'r lan yn

Aberdyfi ac fe fyddai mae'n debyg yn cynyddu gwerth y pysgod ar y farchnad yn enwedig yn ystod diwedd y tymor.

***9.2*** Er i'r Uned Forwrol drafod hyn am beth amser gyda chynrychiolydd y Gymdeithas nid oes unrhyw gynigion pendant wedi eu llunio. Mae unedau penodol a fedrai fod yn addas i bysgotwyr masnachol yn Aberdyfi yn mynd am bris uchel ac mae prinder amlwg o le ar gael.

***9.3*** Fe wnaeth yr Uned Forwrol gytuno mewn egwyddor i edrych ar y posibilrwydd ac i ystyried trosglwyddo'r Uned a ddefnyddir ar hyn o bryd gan yr Uned Forwrol yng Nghanolfan Dyfi. Os fydd hyn yn ateb tymor hir yna bydd angen gwaith ychwanegol gan yr Uned i asesu addasrwydd rhyddhau'r uned er budd pysgotwyr masnachol. Rhagwelir y bydd Cymdeithas Bysgota Bae Ceredigion yn gallu rhoi mwy o sylwadau am beth maent ei angen yn y dyfodol agos.

***9.4*** Mae'r ardal storio sydd yng nghyffiniau Aberdyfi oedd ar gael i ddefnyddwyr masnachol yr harbwr gan yr Uned Forwrol wedi cael ei chamddefnyddio'n arw yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae tipio slei bach yn broblem gyffredin ac mae offer na ellir ei drwsio, sydd yn ôl pob golwg yn berchen i ddefnyddwyr y lloc, yn parhau i gael ei adael yno.

***9.5*** Yn ddiweddar, mae staff yr harbwr wedi bod yn ceisio clirio offer diangen sydd wedi ei adael a sbwriel slei bach o'r darn pwysig yma o dir. Mae cost o dros £1,000 wedi ei achosi wrth hurio sgipiau masnachol a throsglwyddo gwastraff o'r tir i safle tir-lenwi cofrestedig.

***9.6*** Os yw'r tir i fod ar gael i ddefnyddwyr masnachol yn y dyfodol ac os yw agwedd weledol y safle i'w gwella yna bydd angen sicrhau bod mwy o ddiogelwch ar y safle. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy sicrhau fod yr allwedd ddiogelwch sy'n caniatáu mynediad i'r safle yn cael eu rhoi i'r rhai hynny sydd ag awdurdod i ddefnyddio'r safle a bod y rhai hynny sy'n mynd i'r lloc yn cael allweddi diogelwch unigol. Mae'r harbwr feistr wedi derbyn cloeon addas ac fe ddisgwylir y bydd y system newydd yn cael ei chyflwyno ar y 1af Ebrill 2010. Mae cydweithrediad defnyddwyr masnachol yn hanfodol.